north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**TAFLEN BENDERFYNIAD**
**Dydd Gwener, 15 Mawrth 2019**

**Dyddiad y Penderfyniad:** Dydd Gwener, 15 Mawrth 2019

---

**PWNC**

Eitem 5:LLYWODRAETHU BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

---

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd i:

1. Derbyn yr adroddiad
2. I dderbyn y bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru cyn belled y mae'n rhesymol bosib yn cyfarfod mewn un lleoliad priodol yng Ngogledd Cymru yn ôl unol a'r adroddiad.
3. Yn ddarostyngedig i sefydlu Bwrdd Arweinyddion Busnes ffurfiol. I benodi Cadeirydd y Grwp Busnes Gogledd Cymru fel Ymgynghorydd i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd a chadarnhau strwythur Ymgynghorwyr.
4. Fod adroddiad pellach ar yr Is fyrddau arfaethedig yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.
5. I dderbyn Protocol Gweithredol ar gyfer y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn ddarostyngedig i gadarnhadu hawl i'r Swyddog Monitro ac i'r Swyddog Adran 151 i adrodd yn unigongyrchol i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru pe cyfyd angen.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ar y 18fed o Ragfyr 2018, bu i'r Partneriaid ymuno a'r Cytundeb Llywodraethant Cyntaf ("GA1") a ddarparwyd ar gyfer sefydlu Cydbwyllgor o dan Ddeddfau Llywodraeth Leol 1972 a 2000 sydd a hawliau penderfynu ffurfiol. Er mwyn sefydlu'u Bwrdd Uchelgais Economaidd fel Cydbwyllgor a hawl penderfynu mae angen rhai penderfyniadau gan y Bwrdd ar faterion o amgylch trefniadau llwyodraethu

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

---

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol y Corff Atebol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**TAFLEN BENDERFYNIAD**
**Dydd Gwener, 15 Mawrth 2019**

**Dyddiad y Penderfyniad:** Dydd Gwener, 15 Mawrth 2019

---

## PWNC

Eitem 6:CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU - CYNLLUN GWEITHREDU DRAFFT

---

## PENDERFYNIAD

Cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu fel sail ar gyfer trafodaethau pellach gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar gytundeb Penawdau'r Telerau Posib ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru yn ddarostynedig i'r addasiadau isod yn cael eu ymgorffodi yn y Cynllun:

1. Hyblygrwydd o ran amerlenu, proffilio gwariant a blaenoriaethu prosiectau yn Rhan 7 o'r Cynllun Gweithredu ar sail eu haeddfedrwydd a'u fforddiadwyedd.
2. Hyblygrwydd ar y pecyn cyllideb gan y ddwy Lywodraeth ar gyfer gweithredu'r prosiectau yn y Cynllun Gweithredu.
3. Ychwanegu amserlen ar gyfer sefydlu Gorffennaf 2019 fel y dyddiad ar gyfer cytuno Pennawdau'r Telerau i'r naill Lywodraeth.

---

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Pwrpas y Cynllun Gweithredu Drafft yw pennu'r trefniadau ar gyfer gweithredu Cynllun Twf Gogledd Cymru - yn unol â Gofynion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru cyn cytuno ar Benawdau'r Telerau. Bu i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gais am Gynllun Gweithredu tua diwedd mis Tachwedd. Paratowyd yng Nghyd-destun dogfen Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru a dderbyniodd gefnogaeth a chymeradwyaeth partneriaid Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ym mis Hydref 2018.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys gweithgareddau lefel uchel a fydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Twf ynghyd a manylion am natur pob prosiect a ariennir drwy'r Cynllun Twf, eu deilliannau a'u buddion, a'r amserlen ddangosol a rhyn-ddibyniaethau'r prosiectau.

---

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Ymgynghorwyd gyda'r Grŵp Swyddogion Gweithredol a'r Grŵp Cyflawni Busnes Gogledd Cymru.

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**TAFLEN BENDERFYNIAD**
**Dydd Gwener, 15 Mawrth 2019**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Penderfyniad:** | Dydd Gwener, 15 Mawrth 2019 |

---

**PWNC**

Eitem 7:CYLLIDEB 2019-20

---

**PENDERFYNIAD**

I. Derbyn a mabwysiadu Cyllideb y Bwrdd Uchelgais Economaidd ar gyfer 2019/20, wedi'i rannu rhwng costau'r Swyddfa Rheoli Rhaglen, Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol a'r Cydbwyllgor.
II. Cymeradwyo'r trefniadau ac ariannu i Gyngor Gwynedd gyflawni swyddogaethau'r Corff Atebol, fel y nodir yn yr adroddiad.
III. Dirprwyo'r awdurdod i'r Cyfarwyddwr Rhaglen a Swyddog Adran 151 Cyngor Gwynedd i weithredu'r gyllideb a gymeradwyir.
IV. Cymeradwyo i drosglwyddo'r tanwariant o'r cyn trefniadau cysgodol i Gydbwyllgor y Bwrdd Uchelgais Economaidd.
V. Cymeradwyo i drosglwyddo'r tanwariant ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2018/19 i gronfa wrth gefn neilltuol, fydd ar gael i ariannu costau un-tro yn y dyfodol.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn gweithredu'n effeithiol, mae'r Bwrdd Uchelgais Economaidd sydd wedi'i ffurfio o'r newydd angen cyllideb blwyddyn lawn ar gyfer 2019/20.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**
Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r Grŵp Gweithredol.

---

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**TAFLEN BENDERFYNIAD**
**Dydd Gwener, 15 Mawrth 2019**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Penderfyniad:** | Dydd Gwener, 15 Mawrth 2019 |

**PWNC**

Eitem 8:DIWEDDARIAD AR RAGLEN WAITH Y BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo statws RAG (Red, Amber, Green) pob tasg o fewn y Rhaglen Waith gan nodi fod dau weithred o'r adran Penawdau'r Telerau sydd yn cael ei nodi yn isod yn newid o liw melyn i goch.

- Sesiynau Herio gyda Gweinidigoion o Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru
- Cymeradwyaeth ffurfiol i Benawdau'r Telerau ar gyfer Cynllun Twf.

Addasu'r amserlen a'r cyfrifoldeb ar gyfer rhai tasgau yn y Rhaglen Waith, yn unol â'r eglurhad yn rhan 4.3 a 4.4 o'r adroddiad.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae Rhaglen Waith y Bwrdd Uchelgais Economaidd yn cael ei adolygu dros 3 chwarter, ac mae'n adnabod 10 categori allweddol, gyda thasgau penodol yn erbyn y categorïau. Wrth ochor pob tasg, mae amserlen, cyfrifoldeb a statws RAG.

Cafodd y Rhaglen Waith ei chymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar y 1af Chwefror 2019, ac mae angen diweddariad ar gynnydd tasgau'r Rhaglen Waith.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Datblygwyd y Rhaglen Waith gan y Cyfarwyddwr Arweiniol mewn ymgynghriaeth gyda'r Grŵp Swyddogion Gweithredol.

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**TAFLEN BENDERFYNIAD**
**Dydd Gwener, 15 Mawrth 2019**

**Dyddiad y Penderfyniad:** Dydd Gwener, 15 Mawrth 2019

---

**PWNC**

Eitem 9:CYFARWYDDWR RHAGLEN BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

---

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd fod:

I. Cyfarfod sydd wedi ei amserlennu o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cytuno ar restr fer o ymgeiswyr i'w gwahodd ar gyfer ystyriaeth bellach.
II. Pob ymgeisydd ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i fynychu Canolfan Asesu Broffesiynol. Bydda'i Ganolfan Asesu yn cael ei harwain gan asesydd allanol a ddefnyddir gan y Corff Atebol ar gyfer penodi i uwch swyddi. Bydd yr asesydd yn darparu adroddiad ysgrifenedig ar berfformiad pob ymgeisydd.
III. Cyfweliad ffurfiol gyda phob ymgeisydd ar y rhestr fer mewn cyfarfodydd ychwanegol o'r Bwrdd i'w drefnu gydag adborth o'r Ganolfan Asesu i'w ddarparu yn y cyfarfod cyn gwneud y penodiad.
IV. Cytunwyd, yn dilyn asesiad swydd, y bydd y swydd yn cael ei hysbysebu gyda'r cyflog o £86,000 i £96,000, gyda'r hyblygrwydd o ychwanegiad y farchnad os y byddai ymgeisydd arbennig yn ymgeisio.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Nododd aelodau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, nid yn unig eu bod yn awyddus i wneud penodiad allweddol o benodi Cyfarwyddwr Rhaglen mor fuan a bod modd, ond i sicrhau fod y broses recriwtio a'r trefniadau yn rhai effeithiol a gwydn.

Yn ystod cyfarfod ddiwethaf y Bwrdd ar 1 Chwefror, mynegwyd fod angen i Brif Weithredwr y Corff Atebol, mewn ymgynghoriad a'r Cadeirydd ac Is-gadeirydd, i gymryd camau gweithredu er mwyn prysuro'r broses a chychwyn y broses o recriwtio. Mater i'r Bwrdd Uchelgais yw cadarnhau y drefn benodi.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

---

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Arweiniol y Bwrdd, a Nia Medi Williams oherwydd natur y swydd dan sylw roedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.